Heddlu Police
DYFED-POWYS

CAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD BLAENOROL

Enw'r cyfarfod: Grŵp Ymgynghorol Annibynnol
Dyddiad: 20 Mai 2022
Amser: 10:30y.b.
Lleoliad: Pencadlys yr Heddlu

Cadeirydd y Cyfarfod: Derek Turner

Yn Bresennol:-	Derek Turner, Ymgynghorydd Annibynnol Paul Saunders, Ymgynghorydd Annibynnol Patricia Rafique, Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain Paul Lewis, Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain Debra Croft, Ymgynghorydd Annibynnol Elizabeth Johnson, Ymgynghorydd Annibynnol Baba Gana, Ymgynghorydd Annibynnol Gruff Ifan, SCHTh, HDP Teleri Williams, Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Gymraeg, HDP Y Prif Arolygydd Thomas Sharville, Stopio a Chwilio, HDP Siân Davies, Cymorth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, HDP Nia Rees, Swyddog Gweithredu Cadarnhaol Frances Taylor, Ymddygiad yr Heddlu

Ymddiheuriadau:-	Y Ditectif Uwch-arolygydd Huw Davies, Safonau Proffesiynol

Lliwiau'r Cynllun Gweithredu:	Gwyrdd = Cwblhawyd Ambr = Ar Waith Coch = Heb Ei Gwblhau

Rhif	Cam Gweithredu/Penderfyniad Allweddol	Perchennog	Graddfa Amser	Statws	Diweddariad
IAG/001/200522/A	Siân i drefnu bod yr adran fetio'n rhoi cyflwyniad ar broses fetio cyffredinol yr heddlu.	Siân Davies	Cyfarfod Nesaf	**Cwblhawyd**	**26.05.22 – Mae Siân wedi holi'r adran pa un ai a ydyn nhw ar gael ar gyfer cyfarfod nesaf y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ar 24 Awst.** **27.05.2022 Mae'r Ditectif Uwch-arolygydd Huw Davies wedi cadarnhau y bydd yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.**
IAG/002/200522/A	Siân i gysylltu â Rob Blowes (cadeirydd blaenorol y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol) i roi gwybod iddo fod cyfarfodydd nawr yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb eto, a gofyn iddo pa un ai a ydyw eisiau dychwelyd i'r grŵp.	Siân Davies	Cyfarfod Nesaf	**Ar Waith**	
IAG/003/20/05/22/A	Siân i rannu gwybodaeth am ymgyrch newydd y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol â Baba Gana. Bydd Baba Gana'n rhannu'r hysbyseb o fewn ei grwpiau wedyn.	Siân Davies	Cyfarfod Nesaf	**Ar Waith**	
IAG/004/200522/A	Awgrymodd Derek Turner y gallai'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol elwa o dderbyn sesiynau ymwybyddiaeth gan grwpiau o fewn y gymuned. Bydd	Teleri Williams	Cyfarfod Nesaf	**Ar Waith**	

	Teleri'n edrych i mewn i drefnu un siaradwr ar gyfer pob cyfarfod o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol. Enghraifft o hyn fyddai gwahodd cynrychiolydd o Stonewall, cynrychiolydd o'r Rhwydwaith Cefnogi Staff LHDT+ a Swyddog Cyswllt LHDT+.				
IAG/005/200522/I	Rhoddodd Nia Rees, Swyddog Gweithredu Cadarnhaol yr Heddlu, gyflwyniad ar waith gweithredu cadarnhaol yr heddlu. Dangosodd ddata inni am ryw ac ethnigrwydd ein Swyddogion Heddlu presennol. Yn ogystal, rhannodd wybodaeth â ni am ymgeiswyr a oedd ar eu 'cam derbyn cynnig' ar gyfer pob SCCH, Cwnstabl Heddlu ac Aelod Staff Heddlu o fis Ionawr i fis Mawrth 2022. Y ffigurau hyn oedd 31 Benyw a 34 Gwryw, felly mae'n eithaf cyfartal yn gyffredinol. Rhoddodd Nia ystadegau inni hefyd o ran yr iaith Gymraeg yn yr heddlu o fis Ionawr i fis Mawrth 2022, sef: • Mae 28.7% o swyddogion heddlu wedi datgan eu bod nhw'n medru siarad Cymraeg (Lefel 3 ac	-----	-----	-----	Er gwybodaeth y grŵp.

	uwch) • Mae 36.1% o holl aelodau staff yr heddlu wedi datgan eu bod nhw'n medru siarad Cymraeg (Lefel 3 ac uwch) • Mae 32.3% o holl swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu wedi datgan eu bod nhw'n medru siarad Cymraeg (Lefel 3 ac uwch) • Nid yw 59 swyddog a 27 aelod staff wedi datgan eu gallu o ran y Gymraeg eto. Esboniodd Nia hefyd bod pobl sydd â lefel is o ran y Gymraeg yn cael cyfle o fewn yr heddlu i fynd i wersi Cymraeg. Hefyd, os oes ganddynt unrhyw wersi yn eu cymuned, byddent yn anfon y manylion inni a byddwn yn talu amdanynt os nad oes modd iddynt ddod i Bencadlys yr Heddlu ar gyfer y gwersi. Yn ogystal, cyflwynodd Nia graffiau ar geisiadau a oedd dal yn y broses o ymgeisio ar gyfer yr heddlu, gan edrych ar ffigurau ethnigrwydd a rhyw ar gyfer Ion-Maw 2022. Wrth edrych ymlaen, mae'r Swyddog Gweithredu Cadarnhaol yn bwriadu:				

	• Cynnal ymgyrch penagored ar gyfer recriwtio Swyddogion Heddlu. • Cynnal sesiynau galw heibio wythnosol gyda'r tîm recriwtio ar ddyddiau Mercher o 11y.b. tan hanner dydd. Bydd y ddolen yn cael ei hanfon at ymgeiswyr a fu'n aflwyddiannus ac sy'n edrych ar wneud cais. • Cynnal digwyddiad ymgyfarwyddo ganol Mai 2022 ar y cyd â'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu, Prifysgol De Cymru, yr arweinydd gweithredu cadarnhaol a'r tîm recriwtio (digwyddiad Cymraeg a Saesneg). • Cynnal Digwyddiad Ymgyfarwyddo â Gyrfa – mae ceisiadau wedi'u hanfon at ddigwyddiad ysgolion sydd wedi'i drefnu ar gyfer pythefnos olaf mis Mehefin a phythefnos gyntaf mis Gorffennaf. • Datblygu'r ceisiadau gan ymgeiswyr o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn ein hymgyrch Cyn Ymuno ar gyfer Cwnstabliaid Gwirfoddol.				

	• Cadarnhawyd recriwtio trosglwyddedigion – ar hyn o bryd, mae swydd Ymateb a swydd Ditectif wag, a swydd wag gyda'r Uned Cefnogaeth Arfog yn cael eu hysbysebu ledled yr heddlu. Dyddiad cychwyn: Dydd Llun 26 Medi 2022 Yn olaf, rhoddodd Nia restr o'r holl waith/digwyddiadau/ymgyrchoedd y mae'r heddlu'n cymryd rhan ynddynt er mwyn cynyddu gweithlu amrywiol.				
IAG/007/200522/A	Nia Rees i roi crynodeb manylach i Dr Gana o ddata ethnigrwydd yr heddlu.	Nia Rees	Cyfarfod Nesaf	**Ar Waith**	
IAG/008/200522/A	Yn seiliedig ar y nodweddion gwarchodedig, Nia Rees i gasglu gwybodaeth am yr amser y mae swyddogion a staff yn aros yn eu swyddi.	Nia Rees	Cyfarfod Nesaf	**Ar Waith**	
IAG/009/200522/A	Nia Rees i rannu 'gwaith yr ymgymerir ag ef i gynyddu gweithlu amrywiol' â Siân Davies. Yna, bydd Siân yn rhannu hyn â'r grŵp.	Nia Rees/ Siân Davies	Cyfarfod Nesaf	**Ar Waith**	
IAG/010/200522/A	Nia i gael ffigurau ar gyfer ymgeiswyr sy'n gadael y broses recriwtio hyd at y cam derbyn cynnig er mwyn gweld	Nia Rees	Cyfarfod Nesaf	**Ar Waith**	

	pa un ai a oes unrhyw dueddiadau o ran ffigurau gadael.				
IAG/011/200522/A	Nia i drefnu ymweliadau blynyddol â chymdeithas Baba Gana ar gyfer gweithdai recriwtio.	Nia Rees	Cyfarfod Nesaf	**Ar Waith**	
IAG/012/200522/A	Nia Rees i gysylltu â Debra Croft er mwyn trafod rolau hysbysebu o fewn prifysgolion lleol. Siân i roi manylion cyswllt Debra i Nia.	Nia Rees / Siân Davies	Cyfarfod Nesaf	**Ar Waith**	
IAG/013/200522/I	Rhoddodd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu gyflwyniad i'r grŵp am eu gwaith. Esboniodd sut y maent yn ymdrin â chwynion ac yn gweithio'n agos ag Adrannau Safonau Proffesiynol heddluoedd. Maent yn canolbwyntio ar bobl a meysydd sydd â'r lleiaf o ffydd yn yr heddlu.	-----	-----	-----	Er gwybodaeth y grŵp
IAG/014/200522/A	Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu i rannu eu Hadroddiad Cenedlaethol Stopio a Chwilio â Siân. Bydd Siân yn rhannu'r ddogfen hon wedyn ag aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.	Frances Taylor / Siân Davies	Cyfarfod Nesaf	**Ar Waith**	

	Frances Taylor i roi manylion gwefan i Siân rannu â'r grŵp.				
IAG/015/200522/A	Gofynnwyd i Frances Taylor (Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu) ddarganfod pa un ai a ydynt yn derbyn llawer o gwynion gan y gymuned fyddar. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhoi i'r grŵp.	Frances Taylor	Cyfarfod Nesaf	**Ar Waith**	
IAG/016/200522/I	Adolygwyd achosion Stopio a Chwilio. Darparodd y Prif Arolygydd Tom Sharville 3 darn fideo camera corff o 3 achos stopio a chwilio a ddewiswyd ar hap. Trafododd y grŵp rhain.	-----	-----	-----	Er gwybodaeth y grŵp
IAG/017/200522/I&A	Nid yw Cadeirydd y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol, Derek Turner, wedi derbyn adborth gan y Grŵp Iechyd Meddwl Strategol. Er nad yw'n mynd i gyfarfodydd y grŵp rhagor, pwysleisiwyd pa mor bwysig ydoedd i barhau i dderbyn y diweddariadau hynny er mwyn adrodd yn ôl wrth y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol. Siân a Teleri i edrych i mewn i hyn ar ran Derek.	Teleri Williams/ Siân Davies	Cyfarfod Nesaf	**Ar Waith**	

IAG/018/200522/I	Diweddarodd Derek y grŵp am y gwerthusiad o'r prosiect adran 136. Mae'r prosiect hwn ar fin cychwyn ac mae llawer o weithwyr cymorth cymheiriaid medrus yn gysylltiedig ag ef. Mae'r brysbennu yn awr wedi mynd ac mae'r system newydd, sy'n rhedeg canolfan ym Mhencadlys yr Heddlu, mewn grym.	----	----	**----**	Er gwybodaeth y grŵp.
IAG/018/200522/I	Gwnaeth Paul, aelod o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol, bawb yn ymwybodol o'r ap Iaith Arwyddion Prydain 999 newydd – (Gwasanaeth Cyfnewid Fideo Brys y DU) – sydd ar ddod.	-----	-----	**-----**	Er gwybodaeth y grŵp.

Cyfarfod Nesaf:

24 Awst 2022